

Golau ddydd

Yr un tri pherson; dwy daith debyg; ac un gwahaniaeth mawr. 'Yna cododd Joseff, a chymerodd y plentyn a'i fam gydag ef'; dyna a ddywedir ddwywaith yn ail bennod Efengyl Mathew (adnodau 14 a 21). Y tro cyntaf, 'ac ymadael i'r Aifft'; yr eildro, 'a mynd i wlad Israel'. Yr un bobl, Joseff a Mair a'u babi bach, yn mynd i'r Aifft ac yn dychwelyd oddi yno'n ddiweddarach.

A'r 'un gwahaniaeth mawr'? Craffwch ar y ddwy adnod, ac mi welwch fod y daith gyntaf honno i'r Aifft wedi bod 'liw nos'. Gorfu i Joseff a Mair ffoi ganol nos rhag Herod Fawr, a oedd yn 'chwilio am y plentyn er mwyn ei ladd' (adnod 13). Yr awgrym clir yw iddynt allu dychwelyd o'r Aifft gefn dydd golau gan y 'bu farw y rhai oedd yn ceisio bywyd y plentyn' (adnod 20). Ffoi ar frys liw nos, yn llawn ofn a phryder; a dychwelyd liw dydd, mewn rhyddhad a llawenydd mawr.

Clywsom lawer y Nadolig hwn yn cymharu ffoaduriaid ein dydd ni â'r teulu bach a ffodd o Fethlehem. Heb os gall Iesu Grist, a wnaeth y daith gyntaf honno liw nos i'r Aifft, ddeall a chydymdeimlo â phoen y miloedd o bobl sydd wedi ffoi a gadael popeth yn eu hofn a'u hanobaith. Mae'n gwybod beth yw bod yn ffoadur. Ac a ninnau heddiw'n clywed am blant yn dioddef pob math o gamdriniaeth, cofiwn fod Iesu, a gasawyd gan Herod, yn deall hynny hefyd ac yn cydymdeimlo â phawb sy'n dioddef felly.

Ond nid cydymdeimlo yn unig a wna. Mae hefyd yn cysuro a chynorthwyo. A gweddiwn ninnau y bydd llawer o ffoaduriaid ein hoes ni yn gwybod am gysur a diddanwch Iesu y Nadolig hwn. Ymhell o'u gwlad a'u cartref, boed iddynt gael Iesu Grist yn gyfaill agos ac yn Geidwad cryf. Liw nos dywyll eu dioddefaint, diolchwn am bawb sy'n ymgeleddu unigolyn a theuluoedd o ffoaduriaid. A gweddiwn y caiff pawb sy'n estyn y cymorth hwnnw yng nghariad a thosturi Iesu nerth a gras i wneud y cyfan er gogoniant Duw.

A gweddiwn hefyd y bydd i'r 'liw nos' flin a gormesol gilio ac y caiff miloedd ar filoedd o bobl y gorfodwyd iddynt ffoi wireddu eu dyhead i dychwelyd ryw ddydd i'w gwledydd eu hunain (ac i'w cartrefi eu hunain os na chawsant eu dinistrio gan y rhyfela didostur a gorffwyll y boom oll yn dyst iddo'r blynyddoedd diwethaf. Un peth sy'n sicr yw y bydd, yn hwyr neu hwyrach, gwmp i bob teyrn a diwedd i bob teyrnasiad anghyfiawn. Gweddiwn y digwydd hynny'n fuan i ormeswyr ein hoes ni, ac y gwelwn y rhai a orthrymir ac a erlidir heddiw'n profi heddwch a chyfiawnder newydd.

A thros y Nadolig hefyd, diolchwn mai baban Bethlehem yw'r Arglwydd a fydd yn gwared yn derfynol â phob 'liw nos' ein bywydau brau, gan y bydd pob ofn a dychryn, pob galar a phoen, ryw ddydd wedi ei ddileu, a golau ddydd y bywyd tragwyddol yn eiddo i bawb sy'n credu ynddo.

Rhifyn nesaf *Gronyn*

Dydd Sul

Ionawr 8, 2017

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Rhif 710: Dydd Sul, 18 Rhagfyr, 2016



Dymunwn i chi

Nadolig Llawen

a Blwyddyn Newydd Dda

Nadolig Llawen i gynulleidfa *Gronyn*, a diolch i chi am ei ddarllen.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

'Mor ddarostyngedig wyt, fy enaid, ac mor gythryblus o'm mewn! Disgwyliaf wrth Dduw; oherwydd eto molianaf ef, fy Ngwaredydd a'm Duw' (Salm 43:5).



BEIBL BYW

Heddiw

Bydd yr Ysgol Sul yn Capel Coch am 11.15 o'r gloch. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig dan ofal yr Ysgol Sul am 5.00 o'r gloch. Bydd Parti Nadolig y plant yn dilyn yr oedfa. Edrychwn ymlaen at weld Sion Corn yn galw eto heno.

Bydd Oedfa Nadolig yn Neiniolen am 3.30 o'r gloch yng ngofal y Gweinidog, a chymerir rhan gan rai o'r ieuencid.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch ac oedfa Nadolig yng ngofal yr Ysgol Sul am 4.00 o'r gloch.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch, ac Oedfa Nadolig yng ngofal yr Ysgol Sul am 2.00 o'r gloch. Bydd parti'r plant ar ôl yr oedfa.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

Angladd

Cynhaliwyd angladd Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi, Deiniolen yn Eglwys Llandinorwig ddydd Llun diwethaf, Rhagfyr 12 dan arweiniad y Gweinidog a'r Parchg Trefor Lewis, Hen Golwyn. Diolch i swyddogion yr Eglwys am eu cydweithrediad i ni gynnal yr oedfa yno.

Bu farw Margaret yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun, yn hwyr nos Lun, Rhagfyr 5, ychydig funudau'n brin o'i phen blwydd yn 84 oed. Cydymdeimlwn ag Emyr a Rhiannedd, Iola a Rhys, a Glyn a Nia a'u teuluoedd yn eu colled fawr.

Ym marwolaeth Margaret, mae eglwys Cefnywaun a'r Ofalaeth wedi colli aelod gwerthfawr a chyfaill rhagorol. Roedd yn flaenor yng Nghefnywaun ers 1992, ond yr oedd ei gwasanaeth i'r eglwys yn ymestyn yn ôl ymhellach o lawer. Roedd yn un o organyddion yr eglwys ers yn ifanc. Bu'n ysgrifennydd cyhoeddiadau'r Sul am dros ddeugain mlynedd ac yn ysgrifennydd yr eglwys am dros ugain mlynedd hyd at yn gynharach eleni, pan benderfynodd roi'r ddwy swydd heibio oherwydd ei hafiechyd. Bu'n athrawes Ysgol Sul am flynyddoedd, a bu'n gefn ac yn gymorth i athrawon yr Ysgol Sul wedi hynny. Bu hefyd yn ysgrifennydd Pwyllgor yr Ofalaeth ac yn ysgrifennydd Cymdeithas Undebol Deiniolen

Roedd gwaith ysgrifennydd yn ei siwtio i'r dim o gofio mai cofnodi a llythyrru ac ysgrifennu oedd un o'i phleserau mwyaf. Roedd hefyd yn mwynhau sgwrsio efo'r gwahanol bobl y byddai'n eu ffonio i'w

gwahodd i bregethu. Anaml iawn y gwelid Margaret yn ei chartref heb bapur a beiro wrth law, a chyflawnai bob tasg yn daclus a chywir.

Roedd yn wraig hynod o ddiwylliedig ac yn ddarllenlydd brwd. Anaml hefyd y gwelid hi heb fwy nag un llyfr ar ganol ei ddarllen. Roedd ganddi wybodaeth fanwl am bob math o bynciau, a hi mae'n debyg a fyddai'n ateb orau bob amser os byddai noson gwis gan y Gymdeithas neu Ferched y Wawr.

Bu'n fam ac yn nain ofalus i'w phlant ac i'w hwyrion a'i hwyresau. Roedd yn falch ohonynt ac yn falch o'u llwyddiant yn eu gwahanol feysydd. Bu'n fawr ei gofal amdanynt i gyd. Gweithiodd yn galed ar hyd y blynyddoedd i gynnal ei theulu, gan orffen ei gyrfa fel athrawes yn Ysgol Brynrefail, Llanrug. Roedd yr yrfa honno wedi cychwyn yn Hwlfordd, lle bu am flwyddyn cyn dychwelyd i'r Gogledd i Ysgol Botwnnog, cyn iddi briodi a magu teulu. Trwy lythyr a ffôn, fe gadwodd mewn cyswllt ag amryw o'i chydweithwyr a'i chyfeillion o'r ddwy ardal honno i'r diwedd.

Bu'n gyfaill ac yn gefn cadarn i mi fel ei Gweinidog. Ni chefais ddim ond cymorth a chefnogaeth lwyf ganddi am yn agos i ddeng mlynedd ar hugain. Braint fawr fu cael cydweithio â hi a chael ei chwmmi.

Cyfraniadau Capel Coch

Bydd llyfrau ariannol Capel Coch am 2016 yn cau ar Ragfyr 31. Bydd unrhyw gyfraniad a dderbynnir wedi hynny'n cael ei nodi yng nghyfrifon 2017. Diolch am bob cydweithrediad yn hyn o beth.

Carmel

Bydd llyfrau ariannol Capel Carmel yn cau ar Ragfyr 31 hefyd. Diolch am bob cydweithrediad yn hyn o beth.

Dyffryn Ogwen

Bydd Gwasanaeth Carolau i'r Gymuned yng Nghapel Jerusalem, Bethesda am 7.00 o'r gloch, heno, nos Sul, Rhagfyr 18, gyda Chôr Meibion y Penrhyn, Côr y Dyffryn, Corau Ysgol Dyffryn Ogwen ac unigolion. Gwneir casgliad at achosion dyngarol.

Cyhoeddiadau

Sul nesaf

Dydd Nadolig

Carmel

9.00 a.m.

Oedfa yng ngofal y Gweinidog

Capel Coch

10.00 a.m.

Oedfa Gymun yng ngofal y Gweinidog

2017

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Ionawr 1: Oedfa am 3.30 o'r gloch yng ngofal y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Ionawr 1: Oedfa am 10.00 yng ngofal Mr Richard Lloyd Jones.

REHOBOTH

Dydd Sul, Ionawr 1: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Ionawr 1: Oedfa am 2.00 o'r gloch.

CARMEL

Dydd Sul, Ionawr 1: Oedfa Gymun am 5.00 o'r gloch yng ngofal y Gweinidog.

CYNLLUN EFE

Dydd Llun, Ionawr 9: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caethro am 10.30 o'r gloch, a Phwyllgor Ymddiriedolwyr Efe yn Capel Coch am 4.00 o'r gloch.